

Mai/ May 2021.

Annwyl ddisgybl Bl6 (a'r teulu)

Helo 'na, sut wyt ti? Gobeithio dy fod yn mwynhau dy wythnosau olaf yn dy ysgol gynradd ac yn gwneud y mwyaf o dy amser yno cyn trosglwyddo atom ni i'r uwchradd. Diolch yn fawr iawn i ti a dy rieni/warcheidwaid am ddewis Ysgol Syr Thomas Jones fel dy ysgol uwchradd. Rydym yn falch iawn o'th ddewis ac er iddi fod yn flwyddyn heriol a go wahanol, rydan ni'n edrych ymlaen yn fawr iawn at dy gael di yma efo ni yn YSTJ fis Medi.

Dwi'n gobeithio dy fod ti a dy rieni/gwarcheidwaid wedi derbyn yr ebyst gan yr ysgol gyda'r gwahanol becynnau a ffurflenni sydd angen i chi eu llenwi a'u dychwelyd? Mae rhain yn bwysig iawn ac mae'n helpu ni yma yn YSTJ os gawn ni y ffurflenni hyn yn ôl yn fuan gyda rhifau ffôn, cyfeiriadau, ebyst a manylion pwysig a chywir arnynt o.g.y.dd. Mae yna becyn bach wedi ei yrru atat hefyd yn son am y wisg ysgol a'r wisg ymarfer corff.

Os ydi dy rieni/ warcheidwaid angen mwy o wybodaeth am drefn y bysiau neu holi o ran cinio, yna dylent fynd ar wefan y Cyngor a defnyddio y linc isod neu ffonio 01248 750057 a gofyn am yr Adran Addysg neu'r Adran Drafnidiaeth.

https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Dysgu-gydol-oes/Cefnogaeth-rhieni/Llawlyfr-Rhieni-2021-22.pdf

Cofia hefyd y byddi di a gweddill criw Bl6 yn cael dod am dro bach i YSTJ yn dy swigen ysgol i gael blas bach o rai o'r gwersi a chael gweld yr ysgol. Bydd hynny yn digwydd yn fuan iawn ar ôl gwyliau Sulgwyn ac fe gei fwy o wybodaeth drwy dy ysgol cynradd. Mi fydd cyfle i ti holi cwestiynau a chael atebion iddynt ar y bore yna.

Rydan ni gyd yma yn edrych ymlaen yn arw at gael dy gyfarfod yn fuan iawn. Does dim angen i ti boeni, mi wnawn ni'n gorau glas i ateb unrhyw gwestiynau o bethau sy'n dy boeni. Gweithia'n galed rwan a gwna yn fawr o dy wythnosau olaf yn dy ysgol cynradd.

Mi welwn ni di'n fuan iawn!

Cofion gorau,
Heledd Lewis Jones a Staff YSTJ
Arweinydd Blwyddyn 7 a Chyd-gysylltydd Cynradd/Uwchradd



Dear Year 6 pupil (and parents/guardians),

Hello there, how are you? Hope you're enjoying your last few weeks in your primary school and making the most of your time there before you'll be transferring to us here in the secondary. Thank you and your parents/guardians for choosing Ysgol Syr Thomas Jones as your secondary school. We are very proud of your choice and, even though it's been a challenging and very different year, we here at YSTJ are really looking forward to having you here with us in September.

I hope that you and your parents/guardians have received the emails sent recently from the school with the various packs and forms that need filling and returning? These are VERY important and it helps us here at YSTJ if we receive these forms back asap with all the correct addresses, mobile numbers, email contacts etc. There is also information regarding school uniform there too.

If your parents/guardians need more information on buses or regarding school lunches, then they need to go on the Council website and use the link below or phone the Council on 01248 750057 and ask for the Education Department or the Transport dept.

https://www.anglesey.gov.uk/documents/Docs-en/Learning/Parental-support/Parents-Handbook-2021-22.pdf

Remember also that you and the rest of Year 6 will have an opportunity to come for a short visit to YSTJ in your school bubble to have a taster of some of the lessons and look around the school. This will happen very soon after the Whitsun break and you will receive more information through your primary school. There will be plenty of opportunities for you to ask questions and receive answers to them that morning of your visit.

We are really looking forward to getting to meet you very soon. You don't need to worry, we will do our very best to answer any of your questions and hopefully put your mind at rest. Remember to work hard now and make the most of your last few weeks at your primary school.

We'll see you very soon.

Best wishes,

Mrs Heledd Lewis Jones & YSTJ Staff.
Year 7 Leader and Primary/ Secondary Co-ordinator.



YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL689TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY **DIRPRWY: DR G O JONES**

PENAETHIAID CYNORTHWYOL:
MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS
RHEOLWR BUSNES: MISS MENNA OWEN